

# **Adroddiad Blynyddol Cyngor Cymuned Llanddeiniolen 2021/2022**

## **Trefniant Y cyngor**

### ***Cynghorwyr:***

Clwt y Bont – Dawn Parry  
Dinorwig – Lowri Hughes  
Deiniolen – Parch Canon Idris Thomas,  
Emma Chappell, (Cadeirydd)  
Elfed Wyn Williams,  
1 sedd wag  
Penisa'r-waun – Phyllis Ellis, Ynyr Gwyn Parri  
Brynrefail – Ceri Angharad Jones  
Bethel – Richard Llwyd Jones  
Gareth Wyn Griffiths  
Jane Pierce  
Sasha Williams  
Rhiwlas – Rhian Evans-Hill  
R Hefin Williams

### **Is Bwyllgorau:**

Llwybrau: Richard Ll Jones, R Hefin Williams, Phyllis Ellis, Elfed Wyn Williams  
Dros y Clerc: Richard Ll Jones, Phyllis Ellis, Rhian Evans-Hill  
Prosiect Mapiâu: Phyllis Ellis, Sasha Williams, Emma Chappell a R Hefin Williams  
Byddwn yn ffurfio Is bwyllgorau eraill os bydd yr angen

### ***Cynrychiolaeth:***

***Lywodreuthwyr Ysgolion:*** Richard Ll Jones, Lowri Hughes, Phyllis Ellis

***Parc Cenedlaethol:*** Prchg Idris Thomas

***Grwp Ffocws Llechi:*** Prchg Idris Thomas

***Unllais Arfon a Dwyfor:*** Rhian Evans-Hill

***Gwefan:*** <https://cyngorllanddeiniolen.cymru/>

Yn dilyn cyfnod o bron i ddwy flynedd o gyfarfod yn rhithiol, mae'r Cyngor bellach wedi cychwyn cyfarfod wyneb yn wyneb yn ôl. Mae'r Cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn Ysgol Penisa'r-waun ar nos Fawrth cyntaf o bob mis, ar wahân i fis Awst, lle nad oes cyfarfod. Mae croeso i aelodau o'r cyhoedd fynychu'r cyfarfodydd yma, Am fwy o fanylion, cysylltwch â'r clerch.

### **Gwybodaeth Ariannol**

Praesept ariannol y Cyngor eleni oedd £31,800. Ar gyfartaledd mae hyn yn gost o tua £17.27 y tŷ i dai Band D. Eleni, mae'r Cyngor am y drydedd flwyddyn yn olynol yn cadw'r praesept run fath ar £31,800.

Yn flynyddol, mae'r Cyngor yn derbyn archwiliad mewnol gan Gyngor Gwynedd ynghyd ac archwiliad allanol gan Awdit Cymru.

Gweler mantolen ariannol sydd yn dangos derbyniadau a gwariant y Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf.

### **Gweithgareddau'r Cyngor**

Yn dilyn blwyddyn rwystredig y pandemig, mae'r Cyngor eleni wedi bod yn eithaf prysur. Prif ddyletswyddau y Cyngor Cymuned yw Llwybrau, Biniau Halen, Cysgodfan Bws, rhoi barn ar geisiadau cynllunio'r ardal, a thynnu i sylw Cyngor Gwynedd unrhyw ddiffygion, neu faterion sy'n rhwystr yn yr ardal. Felly o ystyried hyn, dyma adroddiad o weithgareddau'r Cyngor Cymuned yn ystod y flwyddyn aeth heibio.

Cafwyd dwy flynedd o drafodaethau ynglŷn â dyfodol ein parciau chwarae i blant, sydd yn cael ei gynnal gan Gyngor Gwynedd. Penderfynwyd yn y pendraw nad oedd yn bosib i'r Cyngor ysgwyddo'r baich yma, yn bennaf oherwydd bod cynifer ohonynt yn y plwy, a byddai'r gost i ni yn cymryd y cyllid blynyddol i gyd, a dal ddim yn gneud gwahaniaeth, ynghyd a'r holl fesurau diogelwch ynghlwm a hwynt. Fodd bynnag, os amlygwyd rhywbeth gan Cofid, daeth yn amlwg gan i lawer gychwyn cerdded yn ystod y cyfnod clo ein bod angen gwneud sawl gwelliant i lwybrau'r fro. Sawl un angen sylw pellach na'r toriadau blynyddol. Mae'r Cyngor felly wedi bod mewn trafodaethau ac yn gwneud arolwg ar lwybrau gyda swyddogion Cyngor Gwynedd, ac wedi neilltuo swm sylweddol i allu gweithio ar hyn yn ystod y tair blynedd nesaf.

Rydym fel yr arfer yn torri'r llwybrau ddwywaith neu dair bellach yn ystod misoedd yr haf, ynghyd a pheintio a chynnal a chadw'r meinciau o gwmpas yr ardal. Bu i ni orfod trwsio dwy fainc yng Nghae Chwarae Bethel, oherwydd fandaliaeth, a hefyd wedi gorfod gwneud i ffwrdd ac un oedd wedi ei malu yn rhy ddrwg lle doedd dim posibilrwyd ei thrin.

Prynwyd a gosodwyd mainc Newydd yng Nghae Chwarae Clwt y Bont.

Un peth sydd yn peri pryder i ni gyd ydi BAW CI. Mae'n amhosib i ni gadw ein pentrefi yn lân a thaclus tra mae perchnogion cŵn yn mynnu peidio codi baw eu ci. Mae yna finiau baw ci ym mhob ardal, defnyddiwyd hyw os gwelwch yn dda.

Mae'r Cyngor ers 5 mlynedd bellach wedi bod yn gyfrifol am ofalu fod halen ar gael yn y bocsys dros fisoedd y Gaeaf, ynghyd ac ail lenwi yn ystod tywydd garw. Eleni, mae Cyngor Gwynedd wedi penderfynu cymryd y baich yma yn ôl, ac felly yn un baich yn llai i ni, oedd yn gôst aruthrol mewn ardal mor fynyddig.

Ar ôl ychydig o waith ymchwil, death i'n sylw fod Neuadd Rhiwlas wedi ei chofrestru yn enw Cyngor Cymuned Llanddeiniolen, er nad oedd y tir wedi ei gofrestru. Penderfynwyd yn unfrydol cofrestru'r tir hefyd yn enw y Cyngor Cymuned i sicrhau dyfodol y Neuadd a sicrwydd i'r amser a ddêl.

Mae'r Cyngor Newydd osod hysbysfwrdd yn Neiniolen, Penisa'r-waun, Rhiwlas a Bethel. Bydd Y Cyngor yn gosod ceisiadau cynllunio ynghyd ac unrhyw newyddion perthnasol ar yr hysbysfyrddau. Os es unrhyw fudiad yn dymuno gosod hysbyseb i fyny, cysylltwch a'ch cynghorydd cymuned neu'r clerc.

Mae'r Cyngor wedi cymryd rhan drwy gefnogi, neu drwy ymgyrch i'r Cyngor Sir ar sawl pwnc. Bûm yn gefnogol i gadw ffens a waliau pileri llechi a pheidio caniatáu newid oherwydd maent yn nodwedd unigryw a hanesyddol yr ardal.

Bûm yn ceisio codi ymwybyddiaeth Y Cyngor Sir o barcio dydd a thros nos n ardal Allt Ddu a Marchlyn. Mae hyn yn broblem fydd ar gynnydd o hyn ymlaen yn dilyn derbyn statws Safle Treftadaeth y Byd. Mae angen edrych ar faes parcio iawn gyda chyfleusterau yno, ac rydym yn dal i geisio rhoi pwysau ar Gyngor Gwynedd ynglŷn â hyn.

Rydym hefyd wedi yn gefnogol i'r ymgyrch i beidio newid enwau llefydd, gan ein bod yn colli'r enwau cywir, sydd yn aml iawn gyda hanes pwysig iddynt. E.e. Allt Ddu oedd yn cael ei alw yn "Bus Turning Point"

Yn wythnosol, rydym yn derbyn ceisiadau cynllunio o Gyngor Gwynedd, lle gofynnir i'r Cyngor Cymuned rhoi barn ar y ceisiadau hyn. I ryw raddau rydym yn ddibynnol arnoch chi fel trigolion i ddod a phryderon neu syniadau i ni. Cofiwch eich ardal chi ydy hi, os allwn helpu, cysylltwch gyda cynghorwyr eich pentref, neu anfonwch e-bost i sylw'r clerc.

Yn flynyddol, mae'r Cyngor Cymuned yn rhannu rhoddion yn dilyn derbyn ceisiadau gan fudiadau o fewn y plwyf. Mae'r ceisiadau i gyrraedd y clerc ynghyd a mantolen ariannol gyfredol, erbyn 30ain Fedi yn flynyddol.

Eleni, cyfrannwyd rhoddion i:

Neuadd Bentref Rhiwlas, Pwyllgor Neuadd Penisa'r-waun, Clwb Bowlio Bethel, Clwb Snwcer Deiniolen, Seindorf Arian Deiniolen, Pêl Droed Ieuenctid Bethel, Llais Ogwen, Eco'r Wyddfa, Eisteddfod Bentref, Clwb Crefft Rhiwlas, Cynllun Efe, Cynllun Natur a Garddio Ysgolion: Ysgol Bethel, Ysgol Gwaun Gynfi ac Ysgol Penisa'r-waun

Un elfen gadarnhaol yn ystod y flwyddyn oedd i ni lenwi y seddau gwag ar y Cyngor. Braf cofnodi fod yr aelodau newydd yn 'waed newydd' ac yn lleihau cyfartaledd oedran y Cyngor. Maent hefyd yn aelodau sy'n gweithio yn galed yn eu cymunedau.

### **Amcanion Y Cyngor am 2022/2023**

Ynghyd a'r Gwaith wythnosol sydd yn arferiad i'r Cyngor Cymuned fel yr adroddiad uchod, mae gan Gyngor Cymuned Llanddeiniolen 3 prosiect ar waith wrth edrych ymlaen At 2022/2023

1. Rydym yn y broses o amcan bris am 'Gysgodfan Bws' newydd ym Mrynrefail.
2. Mae'r Cyngor wedi trefnu i weithio yn agos gyda Gareth Roberts i greu map tebyg i'r mapiau llwybrau a wnaed rhai blynyddoedd yn ôl, o dan y testun "Enwogion yr Ardal"
3. Fel y soniwyd yn yr adroddiad uchod i wneud gwelliannau i'r Llwybrau Cyhoeddus.

Mae'r Cyngor Cymuned yn rhoi Cofnodion pob cyfarfod ar ein gwefan ac hefyd yn rhoi crynodeb o'r cofnodion yn Eco'r Wyddfa a Llais Ogwen yn fisol.

Estynnir croeso i unrhyw un sydd am fwy o fanylion i gysylltu â'r clerc, neu anfon neges os gallwn fod o gymorth i chi yn yr ardal.